

Astudiaeth Achos cARTrefu

Ers 2015, mae prosiect cARTrefu Age Cymru wedi darparu gweithgareddau creadigol a gyflwynir gan artistiaid proffesiynol ar gyfer 3217 o breswylwyr cartrefi gofal, staff, gwirfoddolwyr ac aelodau o'r teulu yng Nghymru.

Yn ogystal â thanio brwdfrydedd tuag at greadigrwydd i bawb dan sylw, mae cARTrefu hefyd wedi mentora artistiaid i wella eu sgiliau ar gyfer gweithio gyda phobl hŷn mewn gofal sy'n agored i niwed, a hynny yn yr 8 i 12 wythnos o gyfnodau preswyl.

Cynhaliwyd gwerthusiad o'r prosiect gyda Phrifysgol Bangor a Chanolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia Cymru, a chanfuwyd y canlynol:

- Gwelliant arwyddocaol o safbwynt ystadegol, yn lefel llesiant y preswylwyr
- Gwelliannau arwyddocaol o safbwynt ystadegol o ran agweddau staff ac artistiaid tuag at breswylwyr, yn enwedig y rheini sy'n byw gyda dementia
- Mae staff yn fwy tebygol o chwilio am brofiadau diwylliannol
- Mae artistiaid wedi datblygu sgiliau newydd

Gan fod cARTrefu'n gweithio gyda mwy na 25% o gartrefi gofal yng Nghymru, dyma'r prosiect mwyaf o'i fath yn Ewrop a chaiff ei gydnabod fel esiampl o arfer da yn ei raglen ofal creadigol sy'n canolbwyntio ar berthynasoedd.

'Dwi ddim wedi gwneud hyn ers blynyddoedd ... Dydw i ddim yn caniatáu i fy hun barhau baentio a mwynhau fy hun....Ond dyma'r diwrnod gorau imi ei gael ers blynyddoedd.'
Preswilydd

Mae gwaddol cARTrefu yn y cartrefi gofal yn mynd y tu hwnt i werthfawrogiad cynyddol o'r celfyddydau, i elfennau sylfaenol o ofal sy'n canolbwyntio ar berthynasoedd. Siaradodd y staff am y ffordd yr oedd y sesiynau wedi gwella eu perthynas â phreswylwyr:

'Roedd mor braf ei gweld hi'n cael hwyl ac yn edrych fel ei hun unwaith eto.'
Rheolwr cartref gofal.

Cafodd pecyn gweithgareddau cARTrefu ei ddatblygu a'i ddosbarthu i bob cartref gofal yng Nghymru, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn www.agecymru.org.uk/cartrefu

Cafodd cARTrefu ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Baring